



Plannu Coed

Cyfnod allweddol/Grŵp oed

Pob oedran

Hyd y gweithgaredd

Dibynnu ar nifer y coed sydd i'w plannu

Lleoliad

Yn yr awyr agored, lle mae'r coed i'w plannu

Cyd-destun

Mae'r cynllun gweithgaredd hwn yn amlygu pwysigrwydd rheoli ein hadnoddau naturiol yn gynaliadwy, gan ganolbwyntio ar blannu coed er budd bywyd gwyllt.

Diben Cyfoeth Naturiol Cymru yw sicrhau bod adnoddau naturiol yn cael eu rheoli'n gynaliadwy yn ei holl waith. Golyga hyn ofalu am aer, tir, dŵr, bywyd gwyllt, planhigion a phridd er mwyn gwella llesiant Cymru, a darparu gwell dyfodol i bawb.

Cysylltiadau â'r Cwricwlwm

ADCDF - Amgylchedd naturiol

Y Cyfnod Sylfaen

- Datblygu ymdeimlad o syfrdandod a rhyfeddod at harddwch tirweddau, cynefinoedd a phethau byw
- Gofalu am yr amgylchedd a chydabod ei bwysigrwydd
- Deall amrywiaeth pethau byw

CA2

- Datblygu parch at dirweddau, cynefinoedd a phethau byw
- Datblygu diddordeb yn y byd naturiol a pharch tuag ato
- Deall anghenion pethau byw

CA3

- Dangos gofal gwybodus ynghylch ansawdd yr amgylchedd naturiol yn bell ac agos
- Gweithredu i warchod bioamrywiaeth ac amgylcheddau lleol a byd-eang
- Deall sut mae gweithgarwch dynol yn newid amgylcheddau lleol a byd-eang

CA4

- Dangos gofal tuag at bopeth byw, eu hanghenion a'u cydberthnasau
- Cefnogi camau sy'n hyrwyddo bioamrywiaeth
- Gwerthfawrogi lleoedd gwyllt

ÔI-16

- Hyrwyddo cefnogaeth i ddiogelu cynefinoedd naturiol
- Gwerthfawrogi'r byd naturiol fel ffynhonnell o ysbrydoliaeth a chreadigrwydd
- Deall egwyddorion datblygu cynaliadwy ecolegol

Amcanion

Erbyn diwedd y gweithgaredd hwn bydd y dysgwyr yn gallu:

- Egluro pam mae'n bwysig plannu coed
- Plannu coed yn llwyddiannus
- Gwarchod a chynnal coed a blannwyd



Cyfarpar ac adnoddau

- Coed i'w plannu (glasbrennau)
- Rhawiau
- Menig garddio (dewisol)
- Llewys coed (dewisol, ond argymhellir y rhain os yw'r glasbrennau'n fwy na 60cm o uchder)
- Polion neu gansenni i gynnal y glasbrennau (dewisol)
- Cansenni a thâp llachar i farcio'r ardal sydd i'w phlannu neu i farcio ymhle mae'r coed wedi'u plannu er mwyn eu gwarchod rhag e.e. peiriannau torri porfa (dewisol)

Y tymor plannu

- Yng Nghymru, ystyrir yn gyffredinol fod y tymor plannu rhwng mis Hydref a mis Ebrill. Yn ystod y cyfnod hwnnw mae'n debygol y ceir rhai adegau maith o dywydd oer a fydd yn ymyrryd â gwaith plannu. Ni ddylech blannu pan fydd y ddaear wedi rhewi nac yn ystod cyfnodau hir o dywydd gaeaf sych am fod perygl mawr y bydd glasbrennau ifanc yn marw oherwydd effeithiau rhew neu ddiffyg dŵr.
- Mae ailblannu'n rhoi coeden ifanc dan lawer o straen, a phetai hyn yn digwydd yn yr haf a'r goeden wedi deilio, byddai'n marw, fwy na thebyg. Mae symud a phlannu coed ifanc tra'u bod ynghwsg dros y gaeaf, yn peri cyn lleied â phosibl o berygl o niwed i'r goeden ac mae ganddi'r gobaith gorau o ymsefydlu yn ei chartref newydd.
- Gellir plannu coed a dyfwyd mewn potyn (nid rhai gwreiddiau noeth) am y rhan fwyaf o'r flwyddyn gan ddibynnu ar y tywydd.

Beth i'w wneud

O ble i gael coed

- Mae Coed Cadw fel arfer yn darparu coed am ddim i ysgolion a grwpiau cymunedol.
- Prynwch o'ch planhigfa leol ac, os oes modd, prynwch lasbrennau sydd wedi'u tyfu'n lleol.

Paratoi at blannu

- Trefnwch fod y coed yn cyrraedd mor agos â phosibl i'ch diwrnod plannu ac, os oes modd, trefnwch eu bod yn cael eu gollwng yn agos i'r safle plannu.
- Gwnewch yn siwr fod lle claeare, cysgodol a diogel i gadw'r coed cyn iddynt gael eu plannu.
- Mae coed ifanc yn fregus iawn a rhaid eu trin yn ofalus iawn. Cyflenwir coed gwreiddiau noeth fel arfer mewn bwndeli, mewn bagiau plastig i'w hamddiffyn. Dylid eu cadw yn y bagiau hyn cyhyd â phosibl.
- Ni ddylid dinoethi gwreiddiau coed i'r gwynt na drafftiau am fwy nag ychydig funudau. Cadwch fagiau'r coed ar gau nes eich bod yn barod i'w plannu.
- Ni ddylid pentyrru'r bagiau ar ben ei gilydd, na'u taflu na'u gollwng. Cadwch nhw allan o olau haul uniongyrchol, a'u gwarchod rhag rhew.
- Os nad yw'n bosibl cadw'r coed yn eu bagiau, bydd gofyn eu claddu yn y pridd – sef eu storio mewn ffos gan sicrhau bod eu gwreiddiau wedi'u gorchuddio, nes eu bod yn barod i'w plannu.

Ble dylid eu plannu?

- Cyhyd â bod y tîrfeddiannwr wedi rhoi caniatâd, gellir plannu coed unrhyw le y bydd ganddynt ddigon o le i dyfu.
- Peidiwch â phlannu'n rhy agos at adeiladau, ceblau uwchben neu danddaearol, draeniau, gwasanaethau trydanol na chaeau chwarae – gall gwreiddiau achosi difrod strwythurol a does dim diben plannu coeden os bydd rhaid ei thorri i lawr yn nes ymlaen am ei bod mewn lleoliad gwael.




- Gall fod yn ddefnyddiol marcio gwahanol rannau o'r safle â chansenni cyn plannu er mwyn sicrhau bod y rhywogaethau cywir yn cael eu plannu yn y lle cywir (bydd darn o dâp llachar wedi'i glymu wrth ben pob cansen yn eu gwneud yn llawer haws eu gweld).

Plannu

- Mae nifer o dechnegau plannu. Eglurir technegau plannu twll a rhic isod.
- Pa bynnag ddull plannu a ddefnyddir, gofalwch rhag plannu coed yn rhy fas neu'n rhy ddwfn. Dylai safle terfynol y goeden olygu bod coler y gwreiddyn ar yr un lefel â'r pridd. Gellir dod o hyd i goler y gwreiddyn fel arfer ar goed ifanc drwy rwbio'r coesyn yn ysgafn ger y gwreiddyn, gan chwilio am y man lle mae newid lliw. Os caiff coeden ei phlannu'n rhy ddwfn, gallai'r coesyn bydru; yn rhy fas, a bydd y gwreiddiau sydd uwchben y ddaear yn marw.

Plannu rhic



- Yn gyffredinol gellir plannu coed sy'n llai na 60cm o uchder gan ddefnyddio techneg plannu rhic.
- Y technegau plannu "rhic", a ddangosir yn y diagram uchod, yw'r gorau fel arfer er mwyn sicrhau bod y gwreiddiau'n cael eu hamddiffyn yn dda yn ogystal ag effeithlonrwydd yn ystod plannu.
- Bydd y math o ric yn dibynnu ar amodau'r pridd a maint y goeden. Mae techneg blannu rhic 'V' syml yn aml yn addas i lasbrennau gwreiddiau noeth bychain. Gallai rhiciau 'L' a 'T' weithio'n well gyda stoc a dyfwyd mewn potyn sydd â gwreiddiau mwy, a choed gwreiddiau noeth sy'n fwy o faint.
- Peidiwch â defnyddio'r rhaw i wthio'r gwreiddiau i'r rhic. Os ydych yn cael trafferth i ffitio'r goeden yn y rhic, rhowch gynnig ar wahanol fath o ric a thoriad dyfnach.



Plannu twll

- Defnyddir plannu twll fel arfer wrth blannu coed mwy o faint sydd o leiaf ychydig flynyddoedd oed. Mae'r dechneg blannu hon yn cymryd mwy o amser ac felly nid hwn yw'r dull a ddefnyddir ar gyfer plannu llawer o goed ar unwaith.
- Defnyddiwch raw i dorri'r dywarchen allan o'r ddaear, ei throï drosodd a'i hollti bron yn ei hanner.
- Palwch dwll ychydig yn lletach a dyfnach na gwreiddiau'ch coeden. Llaciwch y pridd o gwmpas yr ymylon.
- Rhowch y goeden yn y twll a gwirio'r dyfnder. Edrychwch am y "goler" – y marc ar y goeden lle dechreuodd dyfu uwchlaw'r ddaear yn wreiddiol. Dylai hwn fod ar yr un lefel â wyneb y pridd.
- Daliwch y goeden yn unionsyth ac yn ofalus gwthiwch y pridd yn ôl, a'i wasgu i lawr ar y gwreiddiau. Peidiwch â chywasgu'r pridd oherwydd bydd hyn yn atal dŵr ac aer rhag cylchredeg, ond gwnewch yn siwr fod eich coeden yn gadarn.
- Rhowch y dywarchen yn ôl dros y twll gyda'r hollt o boptu'r goeden ifanc, gyda'r glaswellt am i lawr.

Gwarchod y coed ar ôl eu plannu

- Gall llewys a thiwbiau coed fod yn ffordd werthfawr o'u gwarchod rhag cwningod, llygod y dŵr a cheirw, a gallai'r arian a wariwyd fod yn llai yn y pen draw na chost phrynu coed newydd yn lle rhai marw. Cynlluniwyd rhai mathau o diwbiau a llewys i roi amgylchedd cysgodol, tebyg i dŷ gwyr i'r coed, gan felly hyrwyddo'u tyfiant.
- Mae pob llawes, pan fo wedi'i diogelu'n briodol â pholyn neu gansen, yn rhoi rhywfaint o gysgod i'r goeden rhag gwyntoedd cryfion a thywydd eithafol, ac mae hefyd yn dangos i staff cynnal a chadw tir ymhle mae coed wedi'u plannu!
- Gwnewch yn siwr fod y maint a'r math o lawes a ddefnyddiwch yn addas ar gyfer y stoc blannu sydd gennych (os nad ydych yn siwr, holwch y cyflenwr).
- Fel arfer, gosodir llewys yn syth ar ôl plannu. Gallwch naill ai osod y llawes ar unwaith, neu blannu rhes o goed ac yna mynd yn ôl a gosod y llewys.
- Gofalwch eich bod yn gosod y llewys yn iawn, neu byddwch yn gwastraffu'ch amser: er enghraifft, mae llewys sy'n gwarchod rhag llygod y dŵr yn ddiwerth os nad ydynt wedi'u gwthio i'r ddaear yn iawn, am fod llygod y dŵr yn gallu mynd oddi tanynt a'u gwthio o'r ffordd.
- Fel dewis rhatach, gellir defnyddio poteli diod plastig, fel poteli pop neu gartonau llaeth fel llewys. Torrwrch waelod y botel i ffwrdd a'i gosod wyneb i wared dros y goeden gan wthio'r pig i'r ddaear. Ar ôl i'r goeden ymsefydlu, tynnwch y llawes oddi yno gan ofalu rhag rhwbio yn erbyn y goeden ac achosi clwyf. Gallai hwn fod yn fynedfa i glefyd a haint.

Gofalu am y coed ar ôl eu plannu

- Sicrhewch fod ganddynt gyflenwad dŵr digonol yn ystod eu blwyddyn gyntaf. Ar y cyfan, mae ar goed sydd newydd eu plannu angen galwyn o ddŵr y dydd – efallai bydd angen ichi eu dyfrhau yn ystod ysbeidiau heulog, ond peidiwch â'u gor-ddyfrhau. Ar ôl i'r goeden ymsefydlu, gellir lleihau'r dyfrhau.
- Bydd y llystyfiant o'i chwmpas yn effeithio'n sylweddol ar gyfradd tyfiant coeden ifanc a'i gobaith o oroesi. Bydd glaswellt a chwyn yn cystadlu am leithder a maetholion o'r pridd, felly bydd angen gwneud rhywfaint o chwynnu. Gwnewch yn siwr fod ardal o ryw hanner metr yn cael ei chadw'n glir o gwmpas diamedr boncyff y goeden am yr ychydig flynyddoedd cyntaf yn ddelfrydol. Gellir taenu tomwellt, hen garped a hyd yn oed bapur newydd o gwmpas coed ifanc i atal chwyn rhag tyfu.
- Efallai bydd angen 'sadio' coed am y flwyddyn gyntaf ar ôl eu plannu. Bydd angen cau unrhyw graciau yn y pridd o gwmpas eich coed ifanc a achoswyd gan wynt, eira a glaw trwm, drwy eu sathru'n ofalus.



- Sicrhewch fod gofalwyr/tirfeddianwyr yn gwybod ymhle mae'r coed. Mae llawer o goed yn cael eu lladd bob blwyddyn gan beiriannau torri lawnt. Gofynnwch i'ch dysgwyr wneud baneri neu rywbeth o'r fath er mwyn gwneud lleoliad y coed yn glir.
- Ar ôl i goed ymsefydlu, tynnwch unrhyw lewys, cansenni, polion neu glymau. Os gadewir y rhain ar y goeden, gallent rwbio yn ei herbyn gan achosi clwyf yn y rhisgl sy'n gweithredu mynedfa i glefyd a haint.

Cwestiynau allweddol

- Pam mae coed yn bwysig?
- Beth sydd ei angen ar goed i dyfu?
- Pa rywogaethau yw ein coed?
- Sut allwn ni blannu coed yn dda?
- Sut allwn ni ofalu am ein coed?

Addasu ar gyfer galluoedd/anghenion gwahanol

Llai abl

- Dewiswch rawiau o faint priodol i'r defnyddwyr; bydd plant ifanc angen rhawiau bach sy'n ysgafnach ac yn haws iddynt eu defnyddio.
- Gall plant ieuengach weithio mewn parau fel bod un plentyn yn dal y goeden yn ei lle tra bo'r plentyn arall yn ôl-lenwi'r pridd yn ofalus i lenwi'r twll neu'n sadio â'i droed, gan ddibynnu ar y dull plannu a ddewiswyd.

Mwy abl

- Bydd plant hŷn yn gallu ymdopi'n well â thir serth neu anwastad lle gall fod yn anoddach palu'r ddaear.

Gweithgaredd dilynol/estyniad

Rhowch gynnig ar ein hadnoddau dysgu coeden a choetiroedd eraill:

- Cynllun gweithgaredd - Sut mae coeden yn gweithio
- Gweithgareddau a gemau - Gwasgariad hadau
- Nodyn gwybodaeth - Sut i dyfu mesen o had

Chwilio am ragor o adnoddau dysgu, gwybodaeth, neu ddata?

Cysylltwch ag: addysg@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk os gwelwch yn dda, neu ewch i <https://cyfoethnaturiolcymru/dysgu>

Am fformatau gwahanol; print bras, neu ieithoedd gwahanol, cysylltwch ag:

ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

0300 065 3000